NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Everolimus a sunitinib i drin twimorau na ellir eu tynnu'n llwyr neu fetastatig mewn pobl â chlefyd cynyddol

28 Mehefin 2017

Mae everolimus (Afinitor) a sunitinib (Sutent) ar gael ar y GIG fel triniaethau posibl ar gyfer rhai mathau o diwmorau niwroendocrin mewn oedolion:

- os yw'r tiwmor yn fetastatig (mae wedi ymledu) neu na ellir ei dynnu (ni ellir ei dynnu'n llwyr drwy lawdriniaeth) ac
- os yw'r clefyd yn gwaethygu

Mae everolimus ar gyfer trin tiwmorau niwroendocrin pancreatig, gastroberfeddol neu yn yr ysgyfaint ac mae sunitinib ar gyfer tiwmorau niwroendocrin pancreatig.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Macmillan, 0808 808 0000
- Sefydliad Cleifion NET, 0800 434 6476 neu 01926 883487.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2561-2

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights